# YR AELOD CABINET DROS ADDYSG A'R GYMRAEG

**DYDD** Iau, 24 Tachwedd 2022

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** G. Davies (Aelod o'r Cabinet)

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
T. Neumayer-James, Prif Swyddog Llywodraethu Ysgolion;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Rhith-Gyfarfod: 9.15 yb - 9.30 yb**

**1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 19EG HYDREF 2022**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 19eg Hydref 2022 yn gofnod cywir.**

**3. PENODI LLYWODRAETHWYR A.LL**

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y swyddi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Nodwyd bod gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi'i roi i'r Cadeirydd, i Bennaeth yr Ysgol ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd/yr Aelod(au) a oedd yn llywodraethwyr yn achos Ysgolion Uwchradd.

Hefyd dywedwyd bod Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os oedd y lle'n wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

Dywedodd y Pen Swyddog Llywodraethu Ysgolion y gall yr holl Gynghorwyr Sir, ar ôl cael eu hethol, bennu ar ba gyrff llywodraethu ysgolion y byddant yn eistedd a bydd eu penderfyniad yn cael blaenoriaeth dros lywodraethwyr awdurdod lleol na chafodd eu hethol. O ganlyniad, gall Cynghorwyr Sirol enwebu i wasanaethu fel Llywodraethwyr Awdurdod Lleol ar ysgolion lle nad oes lle gwag ar hyn o bryd. Os bydd swydd llywodraethwr wedi'i ordanysgrifio, gall y Cyngor bennu pa Lywodraethwr Awdurdod Lleol sy'n gorfod rhoi'r gorau i'r swydd.

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr Awdurdod Lleol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrff Llywodraethu:-**

| Ysgol Gynradd | Penodiadau |
|---|---|
| **Bancffosfelin**<br>(1 x lle gwag o 29.11.22 - 1 enwebiad) | Mr. J. Jones |
| **Betws**<br>(1 x lle gwag - 1 enwebiad) | Miss L. Gunter |

| | |
|---|---|
| **Bryn Teg**<br>(1 x lle gwag - 1 enwebiad) | Mr. R. Collins |
| **Brynsaron**<br>(1 x lle gwag - 1 enwebiad) | Mr. G. Richards |
| **Fed Beca Bro Brynach**<br>(4 x lle gwag o 5.12.22 - 4 enwebiad) | Y Cynghorydd Dorian Phillips<br>Mr. B. Challinor<br>Mr. W. Evans<br>Ms. J. Thomas |
| **Fed Carwe Gwynfryn Ponthenri**<br>(1 x lle gwag - 1 enwebiad) | Mr. T. Jones |
| **Llanddarog**<br>(1 x lle gwag o 21.11.22 - 1enwebiad) | Mrs. M. Rees |
| **Llanybydder**<br>(1 x lle gwag - 1 enwebiad) | Mrs. A. Smith |
| **Llys Hywel**<br>(1 x v lle gwag - 1 enwebiad) | Ms. N. Ward |
| **Penygroes**<br>(1 x lle gwag - 1 enwebiad) | Ms D. Mainwaring |
| **Y Ddwylan**<br>(2 x lle gwag - 1 enwebiad) | Mr. G. Williams |

| Ysgol Uwchradd | Penodiadau |
|---|---|
| **Bro Dinefwr**<br>(1 x lle gwag - 1 enwebiad) | Mr. D. Nicoll |

**AELOD O'R CABINET** ______________________ **DYDDIAD** ______________